# THEMA: Bioamrywiaeth

## CEFNDIR

Mae'r sesiwn hon yn ceisio archwilio meysydd allweddol Bioamrywiaeth gan gynnwys beth yw bioamrywiaeth, pwysigrwydd bioamrywiaeth, colled bioamrywiaeth, y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a'r hinsawdd a sut y gallwn ni helpu.

Erbyn diwedd y dydd dylai'r plant allu gwneud y canlynol:

- Deall y term 'bioamrywiaeth', pam ei fod yn bwysig a sut y gall ein helpu.
- Deall y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a'r hinsawdd.
- Deall bygythiadau i fioamrywiaeth a sut y gall tiroedd ysgolion gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn lleol.
- Gwybod sut i wneud gwahaniaeth trwy wneud gofodau yn fwy cyfeillgar i natur.
- Brwdfrydig i rannu beth maent wedi'i ddysgu gydag eraill i ledaenu'r neges.

## Termau Defnyddiol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | Y cyfoeth o wahanol rywogaethau sy'n byw mewn un ardal. |
| Ecosystem | Cymuned a'r cynefin ble mae organebau yn byw. |
| Rhywogaeth | Uned sylfaenol o ddosbarthiad. Gall unigolion o'r un rhywogaeth gyfnewid genynnau neu ryngfridio'n llwyddiannus. Mae cathod, cŵn, pobl a cheffylau yn enghreifftiau o wahanol rywogaethau. |
| Newid hinsawdd | Mae newid hinsawdd yn golygu bod tywydd arferol y Ddaear yn newid dros amser. Gall hyn ddigwydd am fod pobl yn llosgi tanwydd fel glo, olew a nwy, sy'n rhyddhau nwyon i'r aer. Mae'r nwyon hyn yn dal gwres, gan wneud y blaned yn gynhesach. |
| Cynefin | Ble mae organeb yn byw. |
| Diflanedig | Ddim yn bodoli mwyach. |
| Rhywogaethau brodorol | Diffinnir rhywogaeth frodorol fel un sydd wedi cyrraedd Prydain ac Iwerddon yn naturiol ers terfyn y rhewlifiant diwethaf (h.y. heb gymorth bodau dynol) neu un a oedd eisoes yn bodoli (h.y. wedi goroesi ers yr Oes Iâ ddiwethaf). |
| Rhywogaethau Estron / Goresgynnol | Rhywogaethau estron yw planhigion ac anifeiliaid sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn bodoli ynddynt yn naturiol. |

# Dolenni/Adnoddau

**Cefndir a diffiniadau:**

- BBC Bitesize Biodiversity and Ecology
- Garddio bywyd gwyllt

**Dolenni cyswllt i adnoddau Sir y Fflint**

- Gwefan Cyngor Sir y Fflint
- Natur yn Sir y Fflint
- Cynllun Cefnogi Natur yn Sir y Fflint
- Rheoli Perllannau
- Taflen Sir y Fflint yn blodeuo
- Plannu coed yn Sir y Fflint

**Dolenni cyswllt i Bionet, bartneriaeth natur leol Gogledd Ddwyrain Cymru**

- Gwefan Bionet
- Adnoddau Caru Gwenyn